$splithereV2$

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Uned Gymorth Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
**(UGGA)**
**Education, Early Years and Young People Directorate Support Unit (EDSU)**

Deialu uniongyrchol / Direct line: 01656 642617

Ein cyf / Our ref: EDSU/LH

Dyddiad / Date: 16 Ionawr 2026

Annwyl randdeiliad

Yn 2022, cynhaliodd yr awdurdod lleol broses ymgynghori statudol mewn perthynas â chynnig i wneud newid rheoledig i Ysgol Heronsbridge i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer i 300 ac i adleoli'r ysgol o'i lleoliad presennol yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr i Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr o ddechrau tymor yr hydref 2025.

Byddai'r cynnig yn arwain at drosglwyddo Ysgol Heronsbridge i adeilad ysgol newydd ar Island Farm, Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai'r adeilad newydd wedi'i gynllunio ar gyfer 300 o ddysgwyr ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwfn a lluosog ar gyfer oedrannau cynradd, uwchradd ac ôl-16. Byddai gan yr ysgol ddau dŷ i ddysgwyr sydd angen darpariaeth breswyl.

Ar 18 Hydref 2022, adroddwyd canlyniad yr hysbysiad statudol i'r Cabinet. Cynghorwyd y Cabinet, o ystyried natur arbenigol yr ysgol, fod angen ymgynghori ystyrlon â rhaglen strwythuredig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn dilyn adolygiad manwl o'r rhaglen, argymhellwyd y dylid addasu dyddiad agor yr ysgol i ganiatáu digon o amser i'r ymgynghoriad rhanddeiliaid ddigwydd.

Ar ôl ystyried y mater hwn a barn y corff llywodraethu, derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet i weithredu'r cynnig gyda dyddiad agor wedi'i addasu i ddechrau tymor y gwanwyn 2026.

Ers penderfyniad y Cabinet, er bod gwaith wedi bwrw ymlaen ar y cynllun, amharwyd ar amserlen y prosiect oherwydd materion cyllid a chynnydd mewn costau yn y diwydiant adeiladu. Arweiniodd hyn at oedi wrth benodi contractwr dylunio ac adeiladu ac o ganlyniad, effeithiodd hyn ar y dyddiad agor a oedd wedi'i gymeradwyo.
Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer y prosiect yn 2025, felly cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i dendro'r cynllun ac, yn dilyn canlyniad y broses hon, penodwyd Kier Construction i fwrw ymlaen â datblygiad y dyluniad. Mae'r cwmni'n gwneud cynnydd da yn hyn o beth ac yn mynd â'r cynllun drwy'r camau dylunio mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gwaith hwn wedi llywio rhaglen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni'r prosiect.

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh**

Adroddwyd y mater hwn yn ffurfiol i'r Cabinet ar 13 Ionawr 2026, a cheisiwyd cymeradwyaeth i newid dyddiad agor yr ysgol.

Ar ôl ystyried y gweithgareddau carreg filltir a'r cymeradwyaethau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun, ynghyd â sylwadau Pennaeth a Chadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Heronsbridge, penderfynodd y Cabinet addasu'r newid y dyddiad agor i **ddechrau tymor yr hydref, 2028**.

Mae penderfyniad y Cabinet ar 13 Ionawr 2026 yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y'u nodir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ond sydd eto i'w gweithredu gael eu hadolygu. Pe bai hysbysiad galw i mewn dilys gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei dderbyn, byddai'r holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu.

Yn gywir



**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**